

# Sut i wneud obelisg gardd

Edrychwch ar y fideo yn y Cwtsh Creadigol.

**Deunyddiau:** Ffyn cryf fel rhai helyg, cyll neu wiail gardd. Ar gyfer y cylchoedd, helyg wedi'u rhoi mewn dŵr am 3 awr neu helyg ffres neu gelyn sy'n ddigon hyblyg i'w gwehyddu. Rhowch gynnig ar gasglu deunyddiau pan ewch am dro nesaf. Cewch gasglu pethau o'r gwrych yn ôl y gyfraith. Gallwch gasglu pethau o ochr y lôn ond dyma erthygl am y gyfraith:
https://britishlocalfood.com/foraging-british-law/
Gwnewch hyn fel grŵp – mae'n gallu bod yn hwyl.

**Offer:** Offer tocio blodau marw, menig gardd, siswrn.




Tynnwch gylch yn y ddaear â ffon fel yn y llun. Rhowch eich ffyn yn y ddaear yn y cylch - 6-8 modfedd ar wahân.
Gwnewch yn siŵr bod gennych
odrif o ffyn er mwyn i'r
gwehyddu weithio.
Clymwch frigau'r ffyn at ei gilydd.

Nawr gwehyddwch y cylch isaf. Gwehyddwch yr helyg wedi'u socian dan a thros y ffyn a pharhewch i'w wneud gan amyneilio fel bod gan bob ffon un dros ac un dan. Parhewch nes bod y cylch isaf yn ddigon cryf. Gadewch fwlch mawr a dechrau'r ail gylch gan wneud yr un peth. Mae'n bosibl y bydd dau gylch yn ddigon. Ond ychwanegwch gylch uwch os hoffech. Nawr dewiswch eich planhigion dringo.

**Cyflenwyr:** https://www.musgrovewillows.co.uk/willow
https://www.willowgrowers.co.uk Mae helyg wedi'u socian ar gael o'r we hefyd.

Fideo a pdf gan Helen Malia.

#CwtshCreadigol

cultural cwtsh creadigol

hapus Ar gyfer ein lles meddyliol For our mental wellbeing